OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1441 (Cy.145)

# YR IAITH GYMRAEG

## Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *28 Mai 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *25 Mehefin 2002* |

Gan ei bod yn ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fod y personau y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn bersonau sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur;

Yn awr felly, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y swyddogaethau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 6(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**1**), ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol(**2**), a phob pwer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2002 a daw i rym ar 25 Mehefin 2002.

**Pennu Cyrff Cyhoeddus**

**2.** Pennir y personau y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn at ddibenion Rhan II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

28 Mai 2002

(**1**) 1993 p.38
(**2**) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) 1998 p.38.

## Yr Atodlen

### ENW CYMRAEG NEU GYFIEITHIAD O'R ENW

Yr Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector

Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

Awdurdod Strategol y Rheilffyrdd

Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu

Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Peiriannol

Comisiynydd Plant Cymru

Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Cyngor Defnyddwyr Gwasanaethau Post

Cyngor Defnyddwyr Nwy a Thrydan

Cyngor Gofal Cymru

Cyngor Gweithwyr Iechyd Proffesiynol

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Cyngor Teithwyr Rheilffyrdd

Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd yng Nghymru a Lloegr

Pwyllgor Teithwyr Rheilffyrdd - Cymru

Tribiwnlysoedd Prisio Cymru a sefydlwyd o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O dan Ran II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("y Ddeddf") gall Bwrdd yr Iaith Gymraeg roi hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw gorff cyhoeddus lunio Cynllun Iaith Gymraeg. Mae adran 6 o'r Ddeddf yn rhestru amryw o gyrff cyhoeddus at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf ac yn darparu bod yr Ysgrifennydd Gwladol (y Cynulliad Cenedlaethol bellach) yn cael pennu cyrff cyhoeddus pellach at y dibenion hynny.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu cyrff cyhoeddus pellach at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf.

Mae tri Gorchymyn blaenorol wedi'u gwneud o dan adran 6 o'r Ddeddf:

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1996 (1996/1898);

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1999 (1999/1100); a

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001 (2001/2550 (Cy.215)).